## Cymerwch eich amser

Peidiwch â brysio; treuliwch ychydig o amser yn dod i adnabod eich safle i sicrhau eich bod yn gwneud mor fawr â phosibl ohono ac yn osgoi niweidio rhywbeth yn ddamweiniol.

Meddyliwch am y dyfodol; oni bai eich bod yn bwriadu eu hailddefnyddio maes o law, efallai y byddai’n well plannu heb lewys coed.


Gellir gwario’r arian sy’n cael ei arbed ar blannu coed newydd yn lle rhai sy’n marw neu sy’n cael eu bwyta.

## Pa goed i’w plannu?

Dewiswch rywogaethau sy’n briodol i’r ardal a’r safle. Ewch i goetiroedd lleol i weld beth sy’n tyfu’n dda yno.

Osgowch rywogaethau anfrodorol yng nghefn gwlad a dewiswch amrywiaeth o goed; nid yw'n beth da plannu un cnwd yn unig mewn ardal. Dewch o hyd i goed yn lleol, yn ofalus; mae llawer o goed yn cael eu mewnforio ac yn gallu dod â chlefyd i’w canlyn.

Edrychwch ar strwythur y coetir. Mae angen amrywiaeth o rywogaethau coed arnoch chi.




## Sut fyddwch chi’n rheoli’ch coetir?

Lluniwch gynllun i reoli’ch coetir newydd. A fyddwch chi’n prysgoedio rhai o’r coed? Pryd fyddwch chi’n gwneud hynny? Gallwch chi ofyn i’ch ymddiriedolaeth natur leol am gyngor.

Manylion cysylltu:

www.rwtwales.org
www.montwt.co.uk
ww.welshwildlife.org

Mae’r prosiect hwn wedi derbyn arian trwy Raglen Cymunedau Gwledig – Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, sy’n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Wildlife Trusts Wales
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

# Y goeden iawn, y lle iawn



Llun gan Lizzie Harper

## Cysylltiadau Gwyrdd Powys

## Pam plannu coed?

Mae coed yn bwysig i fywyd gwyllt ac maen nhw'n arfau pwysig yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Ond mae'n rhaid bod yn ofalus nad ydyn ni'n dinistrio un cynefin i wneud un arall; mae angen amrywiaeth, ac mae gan bob cynefin werth.  Mae glaswelltiroedd hefyd yn dal carbon ac yn ei storio yn y gwreiddiau hyd at fetr o dan y ddaear, ond mae'n bosibl bod hwn yn cael ei golli oherwydd aflonyddu dwfn i'r pridd. Mae coed yn storio carbon uwchben y ddaear ac yn y system gwreiddiau, sy'n helaeth mewn coed aeddfed. Mae coed yn cymryd y rhan fwyaf o'r carbon wrth iddyn nhw dyfu ond mae'n cael ei ryddhau pan fo coedwigoedd yn mynd ar dân a phan fo'r goeden yn marw.

## Adfywio naturiol

Heb roi anifeiliaid i bori neu fynd ati i reoli'r tir, bydd glaswelltir neu brysgwydd yn newid yn araf deg i ddod yn goetir.

Adfywio naturiol ydy'r ffordd orau o greu coetiroedd newydd ar gyfer bywyd gwyllt ac i storio carbon. Mae hyn yn fwy cost-effeithiol na phlannu coetiroedd newydd a hefyd mae coed sy'n cael eu sefydlu trwy adfywio'n fwy tebygol o addasu'n well i'r amodau hinsoddol ac amgylcheddol lleol a gallu gwrthsefyll clefydau a phlâu goresgynnol yn well. Bydd hyn yn arwain at goetiroedd â chyfansoddiad strwythurol a rhywogaethau mwy naturiol.

## Plannu coed

Ond beth os ydych chi eisiau plannu coed? Cyn ichi fynd ati i wario'ch arian, mae yna rai pethau pwysig i'w hystyried.

## Ble i blannu coed?

Mae a wnelo plannu coed â mwy na chreu coetiroedd newydd. Gallwch chi blannu gwrychoedd, perllannau a choed sengl mewn caeau neu fannau gwyrdd cymunedol lle y byddan nhw'n darparu cysgod wrth i'r hinsawdd newid.

Lleolwch y coed i greu coridorau ar gyfer bywyd gwyllt, gan gysylltu coed newydd â choetiroedd sydd eisoes yn bodoli.

## Plannu coed ar ffermdir

Mae angen coed ar ffermydd hefyd. Mae plannu llain gysgodi ar draws llethr yn gallu arafu llif dŵr ac amsugno dŵr glaw a maetholion.  Mae gwrychoedd yn gallu lleihau erydiad pridd, darparu cysgod rhag gwyntoedd mawr a chreu cynefin ar gyfer pryfed sydd, yn ei dro, yn gallu helpu i ddiogelu planhigion ac anifeiliaid rhag plâu a chlefydau. Plannwch brysglwyn mewn cornel ddiddefnydd neu goeden sengl yng nghanol y cae i roi cysgod a rhowch ffens o'i hamgylch. Mae codi uchder neu led torri gwrych sydd eisoes yn bodoli, a'i dorri ar gylch dwy neu dair blynedd yn gwella strwythur ac yn darparu mwy o fwyd i fywyd gwyllt gan fod y mwyafrif yn blodeuo ac yn dwyn ffrwythau ar bren yn ei ail flwyddyn.